

Is Bwyllgor Cyllid - Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Awst 30^{ain} 2017

Presennol Cyng Dewi W Jones Cyng Lowri James Cyng Jean Pierce, Cyng Bernard Jones a'r Cyng Cynrig E Hughes Cyng Dafydd Jones Morris

Ymddiheuriadau pawb yn bresennol

Cadeirwyd gan Cyng Lowri James

Derbyn cofnodion cyfarfod Mehefin 28ain

Derbynwyd fel cofnod cywir Cyng B. Jones yn cynnig a Cyng C. E Hughes yn eilio

Materion yn codi - Dim

Adrodd ymholiad o BDO 2016 -17

Clerc wedi derbyn e-bost gan Liam Harris o gwmni BDO yn amlinnellu materion oedd ganddynt angen eglurhad arnynt i allu cwblhau eu archwiliad.

Esbonwyd fod y Clerc wedi ymateb a fod cadarnhad wedi ei dderbyn gan yr Archwilydd ei fod o wedi cwblhau yr awdit ond yn ei basio ymlaen i gydweithiwr uwch ag o bosib byddai gan hwnnw/honno ymholiad.

Anfonwyd atom gofrestr asedau sefydlog wedi ei addasu oedd yn un pwynt ymholiad gan Liam Harris, ynghyd a'r angen i gael gwefan gyfredol a chofrestr buddiannau aelodau

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gweithredu gwefan sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ôl Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Ar hyn o bryd mae'n defnyddio ei brif awdurdod i letya safle ond nid yw'r safle hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, adran 55

Rhaid i gyngor cymuned ddarparu gwybodaeth electronig ar sut i gysylltu â'r cyngor ac, os yn wahanol, sut i gysylltu â'r cler, yn cynnwys -

rhif ffôn;

cyfeiriad post;

cyfeiriad e-bost;

gwybodaeth am bob un o'i aelodau, yn cynnwys -

enw'r aelod;

sut i gysylltu â'r aelod;

plaid yr aelod (os oes un);

y ward y mae'r aelod yn ei chynrychioli (Ile mae hynny'n berthnasol);

unrhyw swydd y mae'r aelod yn ei ddal o fewn y cyngor;

unrhyw bwyllgor o'r cyngor y mae'r aelod yn perthyn iddo;

cofnodion trafodion cyfarfodydd y cyngor ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y

cofnodion (Ile mae hynny'n rhesymol ymarferol) ac unrhyw ddatganiad wedi'i archwilio o gyfrifon y cyngor.

Rhaid i'r cyngor cymuned sicrhau fod y wefan yn cael ei chreu cyn gynted â phosibl i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Nid yw'r cyngor yn cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau gan fod disgwyl i gynghorwyr ddatgan unrhyw fuddiannau fesul cyfarfod.

Mae Adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn bod cyngor cymuned yn cadw ac yn cyhoeddi cofrestr o fuddiannau ariannol a buddiannau eraill ei aelodau. Mae'n rhaid i'r gofrestr gael ei chyhoeddi ar wefan.

Pan fydd cynghorydd yn dod i'w swydd, argymhellwn ei f/bod yn cwblhau ffurflen cofrestru buddiannau i sicrhau fod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chyhoeddi, hyd yn oed os nad oes gwrthdaro'n bod.

Os hoffech drafod y mater ymhellach neu os ydych yn credu eich bod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, atebwch yr e-bost hwn cyn gynted â phosibl gan nodi'n glir y rheswm pam eich bod yn credu eich bod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac atodwch unrhyw ddogfennaeth i brofi hynny. Bydd uwch aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod y materion ymhellach.

Fodd bynnag, os na fyddwn yn clywed gennych o fewn 14 diwrnod calendr, bydd yr amod yn cael ei osod.

Adroddiad Ariannol.

Dosbarthwyd adroddiad ariannol yn dangos yr Incwm a gwariant am Mis Gorffennaf ag Awst oedd yn cydfynd a'r swm oedd yn y cyfrif fel ar ddiwedd y diwrnod 30/08/17

Ceisiadau am nawdd (s. 137)

Darllenwyd Cais am Nawdd gan Glwb Peldored Iau Penrhosgarnedd i'w cynorthwyo hefo Rhan 1 o'i cynllun i wneud gwelliannau ar y cae peldroed a maes parcio yn eu lleoliad yn Treborth.

Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cyfrannu £1,000.00 iddynt ar gyfer Rhan 1 ag iddynt ddod yn ol at y Cyngor hefo Rhan 2 o'r Cynllun flwyddyn ariannol nesaf

Materion y Cynghorwyr

Cyng C E Hughes Cysgodfan Bws Rhydygroes

Pris prynu Esboniodd y Clerc mae yr un pris a chysgodfan Treborth fyddai Macemain & Amstad ond wrth drafod pris gosod hefo Mr D. E Williams y contactwr gosod i hwnnw adrodd fod ganddo stoc o rai ail-law (wedi ei adnewyddu eu paneli a'i paentio am o gwmpas haner pris rhai newydd)

Awgrymu fod y Clerc a'r Cadeirydd yn ymweld a Mr D E Williams i weld eu safon

Pris gosod £600.00

Bu cryn drafod am brosiectau eraill fydd angen eu prisio fel

Llwybr /ffordd yn arwain tuag at y Ganolfan yn Glasifryn

Wal yn waelod ffordd Coed y Maes

Prydles a Chanolfan Penrhos

Difaterwch Cwmni Gamlins

Argymhell talu'r canlynnol

Opus Energy	£63.89	Trydan y swyddfa
Scottish Power	£47.83	Trydan y Capel
Einir A Williams	£150.00	2 Chwarter Gofalwraig
Wyn Lewis	£650.00	Torri gwair Mis Gorffennaf
Wyn Lewis	£320.00	Chwystrellu a ochri llwybrau yr hen fynwent
Wyn Lewis	£650.00	Tori gwair Awst
HMRC	£90.80	Treth Incwm Mis 6
Cyngor Gwynedd	£957.00	NDR 3 Mis
Angenion Swyddfa	£91.31	Offer swyddfa
Elwyn Jones	£362.90	Cyflog Clerc Mis 6

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45